

Strategaeth Comisiwn y Cynulliad **2016–2021**

Gorffennaf 2016



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael mewn fformatau hygyrch, gan gynnwys ar ffurf Braille, fersiwn hawdd ei darllen, fersiwn print bras, fersiwn sain a chopi caled drwy gysylltu â ni:

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Ar-lein: **www.cynulliad.cymru**
E-bost: **cysylltu@cynulliad.cymru**
Ffôn: **0300 200 6565**

Rydym yn croesawu galwadau a wneir drwy wasanaeth Text Relay.

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Strategaeth Comisiwn y Cynulliad **2016–2021**

Gorffennaf 2016



Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Comisiwn y Cynulliad

Cynnwys

Diben a Nodau Strategol Comisiwn y Cynulliad	1
Pwrpas strategaeth y Comisiwn	2
Profiadau'r Pedwerydd Cynulliad	2
Sganio'r gorwel – 2016-2021 a thu hwnt.....	4
Newid cyfansoddiadol	4
Goblygiadau canlyniad y refferendwm ar yr UE i Gymru a gwaith y Cynulliad.....	4
Capasiti – cynorthwyo'r Aelodau i ymateb i ofynion busnes.....	5
Byd digidol sy'n newid, ymgysylltu â'r cyhoedd a'r galw am fwy o dryloywder.....	5
Strategaeth y Gyllideb	6
Defnyddio adnoddau'n ddoeth.....	6
Y blaenoriaethau strategol i lywio'r gwaith yn yr 1 i 2 flynedd gyntaf.....	8
Cymorth seneddol o'r radd flaenaf.....	10
Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad	11
Defnyddio adnoddau'n ddoeth.....	12

Diben a Nodau Strategol Comisiwn y Cynulliad

Ar ddechrau'r Trydydd Cynulliad, pan wnaed Llywodraeth Cymru a Chomisiwn y Cynulliad yn gyrrff ar wahân, cytunodd y Comisiwn ar nodau ac amcanion penodol ar gyfer y dyfodol. Parhaodd y drefn hon yn y Pedwerydd Cynulliad, a bu Diben a'r Nodau Strategol y Pedwerydd Cynulliad yn gweithio'n effeithiol dros y cyfnod o bum mlynedd. Roeddynt yn fyr, yn syml ac yn glir. Mae eu cwmpas a'u huchelgais wedi bod yn fframwaith addas ar gyfer blaenoriaethau'r Comisiwn. Maent yn parhau i fod yr un mor berthnasol heddiw fel ffocws ar gyfer uchelgeisiau'r Pumed Cynulliad.

Mae'r datganiad o "Ddiben" yn helpu i gyfathrebu dibenion y Cynulliad a'r Comisiwn yn eglur. Mae hyn yn greiddiol i fodolaeth y Comisiwn a'i staff.

O ystyried y bydd y pwerau trethu newydd yn sicrhau perthynas newydd, mwy uniongyrchol ac atebol rhwng y Cynulliad a'i drethdalwyr, mae'r Comisiwn wedi diwygio'r datganiad o ddiben i adlewyrchu hyn.

EIN PWRPAS

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Mae Comisiwn y Cynulliad yn gwasanaethu'r Cynulliad Cenedlaethol i hwyluso ei lwyddiant hirdymor fel sefydliad democrataidd cryf, hygyrch a blaengar a deddfwrfa sy'n gweithredu'n effeithiol ar gyfer pobl Cymru.

Gyda'i gilydd, mae'r nodau strategol yn gosod y fframwaith ar gyfer set uchelgeisiol o flaenoriaethau, gan adeiladu ar y buddsoddiad a'r momentwm a gafwyd yn y Pedwerydd Cynulliad, yn enwedig yng ngoleuni'r sefyllfa gyfansoddiadol gyfnewidiol, gan gynnwys canlyniad y refferendwm ar yr UE, a'r angen parhaus am ragor o ymgysylltu.

EIN NODAU STRATEGOL

Darparu cefnogaeth seneddol o'r radd flaenaf.

Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad.

Defnyddio adnoddau'n ddoeth.

Pwrpas strategaeth y Comisiwn

Bwriedir i strategaeth y Comisiwn adeiladu ar lwyddiant yr hyn a gyflawnodd yn y Pedwerydd Cynulliad a'r trywydd a gymerwyd ganddo bryd hynny. Bydd y strategaeth:

- yn rhoi cyfeiriad strategol i'r Prif Weithredwr, a thrwyddi hi i staff y Comisiwn, ac o hynny y bydd yr holl waith cynllunio a chyflawni yn tarddu;
- yn sail ar gyfer strategaeth gyllidebol y Comisiwn;
- yn galluogi'r Comisiwn i gyfleu ei flaenoriaethau ac ennyn dealltwriaeth a chefnogaeth ar gyfer y blaenoriaethau gan holl Aelodau'r Cynulliad;
- cyfathrebu gwaith y Comisiwn yn allanol; a
- bod yn sail ar gyfer barnu perfformiad a gwariant y Comisiwn.

Bydd angen i'r Comisiwn adolygu'r strategaeth a'r blaenoriaethau yn rheolaidd i sicrhau bod y blaenoriaethau'n addasu i newidiadau yng nghyd-destun ac anghenion y Cynulliad.

Profiadau'r Pedwerydd Cynulliad

Ar ddiwedd pob Cynulliad, mae'r Comisiwn wedi cyhoeddi Adroddiad Gwaddol i nodi'r llwyddiannau arwyddocaol a'r gwersi a ddysgwyd yn ystod y cyfnod. Ym mis Mawrth 2016, cynigiodd y Comisiynwyr argymhellion i helpu Comisiwn y Pumed Cynulliad. Mae'r diagram a ganlyn yn crynhoi'r argymhellion hynny.



CYMORTH SENEDDOL O'R RADD FLAENAF

- **DATBLYGIAD PROFFESIYNOL I'R AELODAU:** parhau i ddatblygu cymorth arloesol sy'n seiliedig ar anghenion.
- **Y BWRDD TALIADAU:** cysylltiadau - rhannu meddwl strategol am flaenoriaethau'r dyfodol.
- **NEWID CYFANSODDIADOL:** darparu arweiniad wrth ymateb i newid i sicrhau bod adnoddau a gwasanaethau yn barod i greu sefydliad effeithiol.
- **TRAWSNEWID GWASANAETHAU:** gwneud y defnydd gorau o wybodaeth y Cynulliad drwy dechnoleg ddigidol i sicrhau rhagoriaeth yn y gwasanaethau a ddarperir ac ymgysylltu democrataidd i fod yn senedd ddigidol agored.



YMGYSYLLTU Â PHOBL CYMRU A HYRWYDDO CYMRU

- **YMGYSYLLTU Â PHOBL IFANC:** ailbwysleisio'r ymrwymiad i ymgysylltu â phobl ifanc ac ystyried rhagoriaethau Senedd leuenctid.
- **LLEDAENIAD DAEARYDDOL:** mae strategaeth gyfathrebu'r dyfodol yn cynnwys wythnos gydan yn ninaspedd a threfi Cymru ee "Senedd@Abertawe".
- **CYFRYNGAU CYMRU:** parhau i feithrin gallu cyfryngau Cymru i ddeall ac adrodd am y Cynulliad i fynd i'r afael â'r diffyg democrataidd.
- **ARLOESI MEWN CYFATHREBU:** bod yn ymatebol i dechnolegau newydd a llwyfannau ar-lein a gwneud yn fawr o wybodaeth y Cynulliad i fod yn senedd ddigidol agored o'r radd flaenaf.



DEFNYDDIO ADNODDAU'N DDOETH

- **BOD YN AGORED AC YN ATEBOL:** ystyried bod yn agored ac yn atebol wrth gynllunio'r gyllideb ac o ran blaenoriaethau corfforaethol.
- **COMISIWN EFFEITHIOL:** ystyried argymhellion yr Adolygiad o Effeithiolrwydd i gefnogi'r Comisiwn i fod yn "gorff llywodraethu" o'r radd flaenaf ac yn arddel yr arferion gorau.
- **GWERTH AM ARIAN:** sicrhau bod gwerth am arian, effeithiolrwydd a gwaith datblygu caffael yn parhau i arddel yr arferion gorau.
- **LLEIHOU ÔL TROED CARBON:** ymrwymo i gyflawni'r targed pellach o ran lleihau'r allyriadau ynni a nodir yn y 'trywydd ynni' erbyn 2021.

Sgano'r gorwel – 2016-2021 a thu hwnt

Mae strategaeth y Comisiwn yn ystyried y materion a'r dylanwadau allanol a fydd yn llywio gwasanaethau'r Comisiwn. Mae'r prif rai a ragwelir wedi eu nodi yma.

Newid cyfansoddiadol

Bydd y Cynulliad o dan y chwyddwydr wrth iddo ddechrau defnyddio ei bwerau trethu newydd (gan gynnwys, efallai, pwerau treth incwm). Am y tro cyntaf, bydd cysylltiad uniongyrchol rhwng yr arian ym mhocedi pobl a'r Cynulliad. Bydd pwerau eraill yn cael eu datganoli drwy Fil Cymru. Mae sicrhau bod gwasanaethau cymorth yr Aelodau a'r Comisiwn yn barod i arfer y pwerau newydd hyn yn faes y gall fod angen buddsoddiad pellach ar raddfa fach ar ei gyfer, er enghraifft, i fynd i'r afael ag unrhyw waith ychwanegol neu i ddefnyddio arbenigwyr.

Mae'n anodd mesur effaith bosibl y refferendwm ar yr UE o ran gwaith Aelodau a'r Pwyllgor yn y tymor hwy. Fodd bynnag, mae cynyddu eu cyfrifoldebau yn debygol o ddwysáu'r pwysau ar Aelodau, a gallai'r angen i gynyddu capasiti'r Cynulliad ddod yn bwysicach. Bydd cael gwared ar gynrychiolaeth yn Ewrop ac ail-lunio ffiniau Senedd San Steffan hefyd yn lleihau nifer y cynrychiolwyr etholedig o Gymru.

Mater i'r Cynulliad ei drafod os caiff Bil Cymru ei basio fydd y penderfyniad ynghylch cynyddu maint y Cynulliad yn 2021. Byddai hyn yn cael effaith sylweddol ar flaenoriaethau'r Comisiwn o ran buddsoddi a byddai angen blaengynllunio'n sylweddol ac ailwampio gwasanaethau'r Comisiwn i ddarparu cefnogaeth i Gynulliad mwy o faint. Yn fwyaf arwyddocaol, byddai angen sicrhau rhagor o swyddfeydd ar gyfer yr Aelodau ac ailgyflunio'r Siambr.

Mae'n debygol y bydd angen mynd i'r afael â nifer o heriau cyfansoddiadol ochr yn ochr â'r trafodaethau ar yr UE, ac efallai y bydd effaith ar strwythurau cyfansoddiadol y DU (yn enwedig gyda'r posibilrwydd o ail refferendwm ar annibyniaeth yn yr Alban).

Goblygiadau canlyniad y refferendwm ar yr UE i Gymru a gwaith y Cynulliad.

Mae'r Cynulliad wedi ymgysylltu â materion yr UE mewn nifer o ffyrdd ers ei sefydlu ym 1999. Mae gan y Cynulliad rôl o ran hybu buddiannau Cymru ymhlith sefydliadau'r UE. Hefyd, mae ganddo rôl o ran dylanwadu'n anuniongyrchol ar safbwynt Llywodraeth y DU ac wrth graffu ar flaenoriaethau strategol Llywodraeth Cymru o ran yr UE.

Mae'r Comisiwn wedi cefnogi'r gwaith ymgysylltu hwn drwy ddarparu adnoddau. Sefydlodd y Comisiwn swyddfa ym Mrwsel yn 2004 ar gais yr Aelodau. Mae Swyddfa'r UE yn gweithredu fel 'llygaid a chlustiau' y Cynulliad ym Mrwsel, gan roi cyngor arbenigol a chydgyssylltu gweithgareddau'r Cynulliad yn yr UE. Mae Swyddfa'r UE yn gweithio'n agos gyda gwasanaethau ac adrannau eraill y Cynulliad, yn enwedig y Gwasanaeth Ymchwil, y Pwyllgorau, y Gwasanaeth Cyfreithiol, Swyddfa Breifat y Llywydd, y tîm Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gwasanaeth Trawsnewid Strategol.

Mae canlyniad y refferendwm yn debygol o gael effaith o ran llwyth gwaith Aelodau a phwyllgorau yn y tymor byr a'r tymor hwy. Mae'n bosibl y bydd llai o waith i'w wneud mewn rhai meysydd, neu bydd llai o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r gwaith hwn, fel gwaith i gefnogi gweithgareddau'r Cynulliad ynghylch Pwyllgor y Rhanbarthau a Chynhadledd Cynulliadau Deddfwriaethol Rhanbarthol Ewrop (CALRE). Fodd bynnag, bydd hefyd angen gwneud mwy o waith ymgysylltu ar faterion cyfansoddiadol â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru yn uniongyrchol i sicrhau bod buddiannau'r Cynulliad yn cael eu cynrychioli.

O ystyried pwysigrwydd cynnwys y seneddau datganoledig yn y broses hon a sicrhau eu bod yn cael trosolwg o gysylltiadau rhynglywodraethol ar y mater hwn, beth bynnag y prosesau/strwythurau sydd yn eu lle ar gyfer trafodaethau rhynglywodraethol, mae'n debygol y bydd angen trefniadau tebyg ar gyfer deddfwrfeydd. Mae meysydd polisi allweddol lle y gweithredir cyfraith yr UE yn dod o fewn meysydd datganoledig, felly mae'r cyfrifoldeb amdanynt yn debygol o ddisgyn ar ysgwyddau'r Cynulliad yn hytrach na San Steffan.

Mae cryfderau craidd y system bwyllgorau yn cynnwys gweithio ar sail drawsbleidiol, arbenigedd polisi a chymau i ymgysylltu ag etholwyr. Mae'r holl faterion hyn wedi codi yn y dadleuon gwleidyddol a'r sylw yn y cyfryngau ar ôl y refferendwm. Mae potensial y pwyllgorau i gyfuno'r tri mewn ffyrdd arloesol, yn ogystal ag adeiladu ar yr arferion gorau o'r Pedwerydd Cynulliad, i ymateb i'r heriau sy'n codi o'r bleidlais yn sylweddol.

Bydd yn fwyfwy pwysig i barhau i ymgysylltu mewn ffordd arloesol yn ystod y cyfnod hwn o ansicrwydd a negodi cymhleth. Mae gofynion cyfathrebu yn newid, ac mae tirlun y cyfryngau yng Nghymru yn newid, felly mae'n hollbwysig ar gyfer dyfodol democratiaeth iach yng Nghymru fod technoleg yn cael ei defnyddio mewn modd hyblyg er mwyn galluogi'r cyhoedd i ymgysylltu â ni ble bynnag, pryd bynnag a sut bynnag sydd orau iddynt. Mae cynlluniau eisoes ar waith i fuddsoddi, ond mae'n bosibl y bydd cyflymder y newid yn golygu bod angen cyflymu'r broses a sicrhau bod adnoddau cyfatebol ar gael.

Capasiti – cynorthwyo'r Aelodau i ymateb i ofynion busnes

Mae'r pwysau ar yr Aelodau a gwasanaethau'r Comisiwn yn debygol o gynyddu yn ystod y Pumed Cynulliad. Mae rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru a'r pwerau newydd a gafodd eu datganoli yn Neddf Cymru 2014, a'r rhai a ragwelir ym Mil Cymru, yn debygol o gynyddu llwyth gwaith yr Aelodau. Hefyd, bydd angen craffu'n fanylach byth ar yr heriau polisi cyhoeddus sy'n wynebu Cymru, sy'n cael eu gwaethygu gan yr hinsawdd economaidd bresennol.

Yn wyneb y pwysau parhaus o gael Cynulliad â 60 Aelod, bydd y Comisiwn yn dymuno ystyried beth yw'r ffordd orau o ganolbwyntio ei gymorth i Aelodau. Y Bwrdd Taliadau, a Chomisiwn y Cynulliad, ill dau, sy'n penderfynu ar y gwasanaethau a'r cymorth ariannol sydd eu hangen ar yr Aelodau i wneud eu gwaith yn effeithiol. Dylai anghenion yr Aelodau fod yn ganolog i'r naill a'r llall a gallai cydbwysedd yr adnoddau o fewn y cylchoedd gwaith priodol fod yn faes i ymchwilio ymhellach iddo â'r Bwrdd Taliadau wrth iddo baratoi ei raglen waith strategol.

Byd digidol sy'n newid, ymgysylltu â'r cyhoedd a'r galw am fwy o dryloywder

Yr her allweddol arall yw'r byd cymdeithasol digidol sy'n newid yn gyflym lle mae pobl yn defnyddio gwybodaeth ac yn rhyngweithio ag eraill ac ar faterion sy'n bwysig iddynt. Mae profiadau digidol pobl yn mynd yn fwyfwy soffistigedig ac mae hynny'n llywio eu disgwyliadau o wasanaethau'r Cynulliad. Mae'r modd y mae pobl yn ymgysylltu â'r amgylchedd gwleidyddol yn newid, ac maent yn disgwyl i wybodaeth am yr Aelodau a'u gwaith fod yn dryloyw ac ar gael yn hawdd. Mae hyn yn sbardun ar gyfer gwelliannau fel y darpariaethau a wneir ar hyn o bryd drwy senedd.tv, gan ddatblygu ein cynnwys teledu ein hunain ar waith y Cynulliad, ac i greu archif cydgysylltiedig o gofnodion y Cynulliad fel ein bod yn diogelu a rheoli'r cofnodion hynny er budd y cyhoedd.

Yr oedd yn gadarnhaol bod cynifer wedi pleidleisio yn etholiad y Cynulliad 2016. Pleidleisiodd 45.4 y cant, sef y ganran uchaf mewn etholiad Cynulliad ers 1999. Serch hynny, nid yw hyn yn cymharu'n ffaith bod 65.7 y cant wedi pleidleisio yn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2015, na'r ffaith bod 71.1 y cant wedi pleidleisio yn y refferendwm ar yr UE. Mae cyfranogiad gan bleidleiswyr ymhlith pobl ifanc a grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig yn wan. Bu gostyngiad sylweddol yn nifer y bobl ifanc

rhwng 18 a 24 oed a bleidleisiodd yn Etholiad Cyffredinol y DU yn 2015 o gymharu â 2010. Mae'r pwerau newydd sy'n cael eu datganoli i'r Cynulliad yn gyfle i gyflwyno trefniadau etholiadol newydd os yw'r ewyllys gwleidyddol yno. Ochr yn ochr â hyn, mae cyfle i adeiladu ar sylfeini rhagorol y gwaith allgymorth ac ymgysylltu â phobl ifanc a wnaed yn y Pedwerydd Cynulliad.

Mae'r sylw a roddir i fusnes y Cynulliad yn y cyfryngau yng Nghymru yn debygol o barhau i fod yn wan. Nid yw'n hysbys eto pa effaith y gallai'r Adolygiad o Siarter y BBC ei chael ar ei ffocws ar drafodaeth wleidyddol yng Nghymru. Bydd parhau i gefnogi'r cyfryngau i roi sylw i waith y Cynulliad yng nghyfyngau cenedlaethol a lleol Cymru yn hollbwysig. Gallem hefyd drafod y posibilrwydd o ddatblygu sianel ar-lein ein hunain neu gynnwys teledu ar waith y Cynulliad. Mae amryw arolygon o'r defnydd o'r cyfryngau yn parhau i bwysleisio bod cyhoedd Cymru yn dibynnu ar gyfryngau'r DU fel y brif ffynhonnell o newyddion. Efallai y daw cyfle i wella perthynas y Cynulliad â'r cyfryngau hyn, gwella'u dealltwriaeth a'u hawydd am newyddion y Cynulliad a'u helpu i wneud cysylltiadau rhwng materion sy'n gyffredin i'r DU a'r sefyllfa yng Nghymru.

Cymerwyd camau breision yn y Pedwerydd Cynulliad o ran arloesi mewn ymgysylltu ar-lein. Fodd bynnag, bydd angen cymryd rhagor o gamau radical yn ogystal â rhagor o fuddsoddiad yn ystod y blynyddoedd nesaf i drawsnewid gwasanaethau. Drwy gael gwell dadansoddiad o'r cyfoeth o ddata sydd ar gael yn y sector cyhoeddus bydd cyfle heb ei ail i wella'r modd y caiff gwasanaethau eu teilwra a'u targedu i wneud y defnydd gorau o gronfeydd ariannol cyfyngedig. Mae angen newid mawr yn y ffordd rydym yn cynhyrchu, rheoli ac yn defnyddio gwybodaeth am fusnes y Cynulliad os yw'r Comisiwn am weld y Cynulliad yn cael ei ystyried yn senedd ddigidol o'r radd flaenaf sy'n agored, yn gynhwysol ac yn hawdd ymwneud â hi, gan arwain at well cyfreithiau a gwell craffu.

Strategaeth y Gyllideb

Mae'n amlwg bod cysylltiad agos rhwng strategaeth y Comisiwn ar gyfer y Pumed Cynulliad a'r gyllideb y bydd yn gofyn i'r Cynulliad ei chymeradwyo. Rhaid i'r gyllideb fod yn ddigonol i alluogi'r Comisiwn i gyflawni ei uchelgeisiau ac ymateb i'r her o gael mwy o gyfrifoldebau o fewn y cyfyngiadau o ran capasiti sy'n nodwedd o ddeddfwrfa leiaf y DU. Ar yr un pryd, caiff yr uchelgeisiau hyn eu pennu yng nghyd-destun cyllid y sector cyhoeddus ehangach.

Mae'r Comisiwn wedi cytuno ar strategaeth ar gyfer y gyllideb sy'n darparu cynnydd cymedrol yn lefelau adnoddau cyffredinol y Comisiwn er mwyn i'r Comisiwn allu parhau i ddarparu gwasanaethau ardderchog i Aelodau'r Cynulliad. Yn ei dro, bydd hynny'n galluogi Aelodau i gyflawni eu cyfrifoldebau i ymgymryd â gwaith craffu effeithiol ar Lywodraeth Cymru, i wneud deddfau da i Gymru ac i gynrychioli pobl Cymru. Mae'r strategaeth yn darparu cynnydd yn unol â chwyddiant ynghyd â chynnydd ychwanegol o 1 y cant yn 2017-18 ac yn 2018-19, ac yna gostyngiadau o 0.8 y cant yn is na chwyddiant yn 2019-20 a 2020-21 (h.y. yn unol â thoriadau a ragwelir i Floc Cymru). Roedd y Comisiynwyr yn ymwybodol bod cyllideb y Comisiwn yn cael ei phennu o fewn cyd-destun cyllid y sector cyhoeddus ehangach, ac roeddent yn glir y byddai angen ailedrych ar faterion ynghylch y gyllideb os byddai'r Comisiwn yn wynebu newid eithriadol mewn amgylchiadau.

Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Fel sefydliad a ariennir yn gyhoeddus, rhaid i'r Comisiwn ddangos yn gyson ei fod yn defnyddio ei adnoddau'n effeithlon ac yn effeithiol a'i fod yn gweithredu prosesau llywodraethu a sicrwydd effeithiol. Fodd bynnag, mae o'r pwys mwyaf ein bod yn parhau i ddarparu gwasanaethau rhagorol i Aelodau'r Cynulliad er mwyn iddynt allu ymgymryd â'u rôl etholedig i graffu'n effeithiol ar Lywodraeth Cymru, i ddeddfu'n dda ar gyfer Cymru ac i gynrychioli pobl Cymru.

Rydym wedi llunio nifer o amcanion arweiniol i roi sicrwydd ein bod yn rhoi blaenoriaeth i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol ac yn effeithlon yn ei gwaith beunyddiol yn ogystal ag wrth wneud newidiadau i'r sefydliad. Yr amcanion hynny yw:

- herio ein hunain a'n cyflenwyr yn barhaus er mwyn cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd ac i fesur gwelliant ac i adrodd ar hynny;
- darparu tystiolaeth glir ein bod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithiol a'n bod yn iawn i ddefnyddio'r gyllideb a ddyrannwyd inni yn y modd hwn;
- sicrhau bod popeth a wnawn yn gyson â Strategaeth y Comisiwn, ei nodau a'i flaenoriaethau, yn ateb y diben ac yn ffrwyth asesiad o'r costau o gymharu â'r buddion;
- cynnig ein hunain ar gyfer archwiliadau mewnol ac allanol a bod yn glir ac yn agored am ein cynlluniau a'n llwyddiannau; a
- chasglu enghreifftiau o arfer da, ystyried yr hyn sy'n eu gwneud felly, a sicrhau bod yr arfer da hwn yn cael ei fabwysiadu. Yn yr un modd, lle nad yw pethau'n mynd yn dda, byddwn yn dangos beth rydym wedi'i ddysgu a'i wneud, rhag bod yr un peth yn digwydd eto.

Mae'r sector cyhoeddus fwyfwy yn awyddus i fanteisio ar gyfleoedd trawsnewid digidol er mwyn sicrhau arbedion effeithlonrwydd, ac i arloesi mewn gwasanaethau cyhoeddus i gynnig gwell profiad i'w gwsmeriaid. Yn sgil ein buddsoddiad mewn gwasanaethau TGCh mewnol, mae gennym sylfaen gref, gwydn a hyblyg i adeiladu arni ar gyfer y dyfodol ac i fanteisio ar y cyfleoedd hyn ac ar dechnolegau'r dyfodol er budd yr Aelodau, pobl Cymru a'r staff. Er mwyn gwneud hynny, mae angen i ni uwchraddio a gwella gwasanaethau presennol fel Senedd TV a chynllunio ar gyfer hynny drwy wneud gwelliannau penodol yn y tymor byr yn ogystal â thrwy gyflwyno gwasanaethau newydd sydd wedi'u hanelu at y cwsmer drwy gydol y Pumed Cynulliad.

Byddai strategaeth archifo newydd yn ein galluogi i reoli'r wybodaeth gynyddol yr ydym yn ei chynhyrchu mewn modd effeithlon, a'i gwneud yn hygyrch nawr ac i genedlaethau'r dyfodol.

Bydd brawychiaeth a bygythiadau i ddiogelwch yn parhau i fod yn destun pryder mawr i bobl, a bydd angen i'n mesurau diogelwch gael eu hadolygu'n gyson. O ganlyniad i'r digwyddiadau trasig yn 2016, rydym wedi adolygu'r trefniadau diogelwch, cyngor a chanllawiau presennol i Aelodau'r Cynulliad a'u staff, ac rydym wedi cymryd nifer o gamau i wella diogelwch y tu hwnt i ystâd y Cynulliad.

Mae'n amhosibl amddiffyn yn llwyr yn erbyn ymosodiad ar hap, heb wrthod caniatâd i'r cyhoedd gael unrhyw fynediad at wleidyddion y tu allan i amgylchedd a reolir. Mae gennym dystiolaeth bod ein Haelodau Cynulliad a'u staff yn dod i gysylltiad ag unigolion a all fod yn beryglus, fel arfer gydag ychydig neu ddim gwybodaeth flaenorol am y risg. Er y bydd yn anodd iawn rhoi sicrwydd y bydd Aelodau a'u staff yn ddiogel ym mhob sefyllfa, rydym o'r farn y gellir rhoi rhai mesurau ymarferol ar waith a all helpu i liniaru'r risg, codi ymwybyddiaeth a rhoi sicrwydd, a bydd cynlluniau yn y dyfodol yn adlewyrchu hyn.

Y blaenoriaethau strategol i lywio'r gwaith yn yr 1 i 2 flynedd gyntaf

Mae'r blaenoriaethau strategol yn uchelgeisiol ac yn adeiladu ar y buddsoddiad a'r momentwm sydd wedi'i gyflawni eisoes, yn enwedig yng ngoleuni'r sefyllfa gyfansoddiadol sy'n newid a'r heriau allweddol a amlygwyd uchod. Ar gyfer pob nod strategol, nod y Comisiwn yw gosod a chynnal safonau uchel fel arweinydd ym maes gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, a hynny ar adeg o graffu cyhoeddus mwy trylwyr fyth, a gwella ein henw da yn rhyngwladol fel sefydliad seneddol o'r radd flaenaf sy'n agored ac yn effeithiol.

Drwy herio setliadau gwariant cyhoeddus bydd modd craffu'n agosach fyth ar berfformiad a chyllidebau, fel y mae argymhellion diweddar y Pwyllgor Cyllid a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn ei ddangos. Bydd yn bwysig i'r Comisiwn gael sicrwydd bod ei strategaeth gyllidebol yn adlewyrchu lefel ei uchelgais ac yn sicrhau gwell tryloywder ac atebolrwydd.

Un o'r prif themâu yn y blaenoriaethau hyn yw ffocws ar feithrin gallu i sicrhau llwyddiant y sefydliad yn y tymor hir. Mae hyn yn berthnasol i'r canlynol:

- y Cynulliad a'r Comisiwn: drwy fod angen iddynt sicrhau bod y fframwaith gyfansoddiadol a gweithdrefnol priodol ar waith;
- yr Aelodau: drwy lunio'r gwasanaethau a'r cyfleoedd datblygiad proffesiynol ar gyfer eu hanghenion;
- y staff: sicrhau bod gan ein pobl yr adnoddau sydd eu hangen arnynt, eu bod yn dod o'r gronfa dalent ehangaf bosibl, eu bod yn cyd-fynd â'n blaenoriaethau busnes, a bod gennym yr hyblygrwydd i ymateb i anghenion sy'n newid;
- diwylliant ystwyth: mynd ati'n barhaus i geisio cyfleoedd i bawb greu gwerth drwy weithio mewn ffordd wahanol, gan wneud y defnydd gorau o alluoedd technolegol datblygedig, a chofleidio newid; a
- gwella gwerth yr ymgysylltu a gynigir gan ystâd y Cynulliad, yn enwedig y Senedd.

Bydd angen i'n gallu i ymateb i ofynion busnes yn y Pumed Cynulliad, fel gwasanaethau dwyieithog, newid cyfansoddiadol, canlyniad y refferendwm ar yr UE neu weithgareddau pwyllgor, gael ei reoli ochr yn ochr â buddsoddiad mewn gwella ac arloesi.

Bydd buddsoddi adnoddau ychwanegol i gefnogi newid ac adeiladu ein gallu i gyflawni mwy a hynny mewn ffordd well yn talu ar ei ganfed yn y tymor hwy. Gall symiau bach o fuddsoddi yn y manau cywir fod yn gatalydd ar gyfer sicrhau newid sylweddol yn ansawdd ein gwasanaethau ac osgoi'r risg ein bod yn llusgo'n traed ac yn dod yn llai hyblyg ac yn effeithiol wrth gefnogi'r Aelodau. Gweithiodd y dull hwn yn dda wrth inni ddod â TGCh yn fewnol, ac mae hynny bellach yn dwyn ffrwyth. Mae rhai o'r meysydd penodol i fuddsoddi ynddynt yn y dyfodol yn cynnwys:

- gwneud newid sylweddol yn y gwasanaethau digidol a ddarperir gan y Comisiwn i'r Aelodau a'r cyhoedd, gan gynnwys gwella gwasanaethau fel Senedd TV;
- cryfhau'r strategaeth ymgysylltu â phobl ifanc i fuddsoddi yn nyfodol democratiaeth Cymru;
- creu archif cydgysylltiedig a chyhoeddus er mwyn cadw cofnodion y Cynulliad ar gyfer yr hirdymor;
- y rhaglen 10 mlynedd o fuddsoddi yn yr ystâd a'r Trywydd Lleihau Ynni, lle rhagwelir y gellir sicrhau arbedion ariannol;

– byddai prynu Tŷ Hywel, pe byddai cyfle i wneud hynny, yn fuddsoddiad mawr ond byddai'n werth ei ystyried oherwydd byddai'n arbed arian sylweddol yn y tymor hwy.

Rhaid i'r blaenoriaethau strategol hefyd adlewyrchu'r ffaith bod Deddf Llywodraeth Cymru 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Comisiwn roi sylw i egwyddorion cyfle cyfartal a chynaliadwyedd ac i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal wrth gyflawni ei swyddogaethau. Atgyfnerthir hyn gan Ddeddf Cynulliad Cenedlaethol Cymru (leithoedd Swyddogol) 2012, a dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a bennir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 sy'n gymwys i'r Comisiwn. Rhaid rhoi ystyriaeth i faterion ieithyddol, cynaliadwyedd, amrywiaeth a chynhwysiant wrth wneud penderfyniadau, llunio gwasanaethau, cynllunio a newid a dylent ychwanegu gwerth at waith strategol y meysydd gwasanaeth. Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i'r modd yr ydym yn recriwtio ac yn datblygu gweithlu amrywiol, a sicrhau bod dewisiadau ac anghenion unigolion yn cael eu parchu a'u diwallu bob tro y byddant yn ymwneud â'r Cynulliad.

Mae'r adrannau a ganlyn yn dangos blaenoriaethau allweddol y Comisiwn ac yn rhoi syniad o weithgareddau tebygol o ran pob un o'r tri nod strategol.

Cymorth seneddol o'r radd flaenaf

Arloesi a theilwra ein gwasanaethau er mwyn rhoi'r cymorth gorau i Aelodau, gan fanteisio ar dechnoleg

- Datblygiad proffesiynol ar gyfer Aelodau newydd a deiliaid Swyddi yn seiliedig ar angen.
- Rhoi arweiniad i ddarparu cefnogaeth o'r radd flaenaf ar gyfer Aelodau yn eu rôl graffu gan ymateb i'r Pwyllgor Busnes a gweithio gydag ef.
- Dylunio ein gwasanaethau yn seiliedig ar anghenion amrywiol Aelodau, eu staff a'r grwpiau drwy gydweithio'n agosach.
- Gwneud y gorau o'r cyfleoedd a gynigir gan dechnoleg er budd Aelodau, gan gynyddu'r gwasanaethau ar-lein sydd ar gael.
- Ymgysylltu â'r Bwrdd Taliadau i sicrhau bod anghenion yr Aelodau yn cael eu diwallu yn y ffordd fwyaf effeithiol.
- Defnyddio arbenigedd allanol lle y bo angen, gan gynnwys cydweithio parhaus gyda Chanolfan Llywodraethiant Cymru.
- Darparu system effeithiol ac effeithlon o gadw, adalw a chwilio gwybodaeth hanesyddol y Cynulliad ac yn y dyfodol.

Galluogi ymateb sefydliadol cryf i newid cyfansoddiadol a chanlyniad refferendwm yr UE

- Cefnogi gwaith craffu effeithiol ar Fil Cymru.
- Sicrhau bod y Cynulliad yn ymateb i faterion cyfansoddiadol ehangach y DU.
- Cryfhau cysylltiadau rhyngseneddol.
- Parodrwydd i arfer pwerau newydd Bil Cymru.
- Parodrwydd i arfer y pwerau codi trethi newydd.

Darparu gwasanaethau dwyieithog rhagorol

- Gosod yr uchelgeisiau a'r blaenoriaethau ar gyfer Cynllun Ieithoedd Swyddogol newydd y Comisiwn.
- Darparu'r lefel gywir o adnoddau i ymateb i ofynion busnes.
- Cyhoeddi'r Cofnod y Trafodion cwbl ddwyieithog yn gynharach.
- Gwella'r cymorth i ddysgwyr neu'r rhai sydd am wella eu Cymraeg.

Ymgysylltu â holl bobl Cymru a hyrwyddo'r Cynulliad

Ymgysylltu'n strategol i gael effaith ar fusnes y Cynulliad drwy bobl sy'n ymweld â'n hystâd, ledled Cymru ac ar-lein

- Deall a chydweithio gyda'n defnyddwyr i roi'r profiad ymgysylltu gorau iddyn nhw a gwneud gwelliannau yn y meysydd sy'n cael yr effaith fwyaf er budd busnes y Cynulliad.
- Ymgysylltu lleol ledled Cymru.
- Canolbwyntio ar gyrraedd y rhai sydd wedi ymddieithrio, wyneb yn wyneb a thrwy eu targedu'n well.
- Cynorthwyo'r cyfryngau yng Nghymru i drafod y Cynulliad a datblygu ein cynnwys teledu ein hunain ar waith y Cynulliad.
- Gwella profiad ymwelwyr â'r Senedd a'n hystâd i alluogi ymgysylltiad â busnes y Cynulliad.

Ymrwmo'n gryf i bobl ifanc Cymru

- Ailddatgan ymrwymiad i ddarparu cyfleoedd i bobl ifanc ymgysylltu â busnes y Cynulliad.
- Adnewyddu'r strategaeth, gan gynnwys ystyried gyda phobl ifanc a sefydliadau cynrychioliadol a fyddai sefydlu Cynulliad leuenctid yn fuddiol.
- Ehangu cyrhaeddiad ein hymgysylltiad â phobl ifanc o bob un o'n cymunedau.

Sicrhau ei bod yn hawdd canfod, defnyddio a rhannu gwybodaeth gywir mewn byd digidol

- Darparu gwybodaeth y gellir ymddiried ynddi sy'n addas ar gyfer amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd.
- Gwneud ein gwybodaeth a'n deddfau - rhai'r gorffennol a rhai'r presennol - yn hawdd i ddefnyddwyr ddod o hyd iddynt, eu rhannu a'u haildefnyddio drwy wefan y Cynulliad a sianeli digidol eraill.
- Cynyddu nifer ac amrywiaeth yr ymwelwyr â'n sianeli digidol.
- Gwella Senedd TV drwy, er enghraifft, gyflwyno nodweddion newydd, integreiddio sgrindeitlo ymhellach, a symud y wefan i'r 'cwmwl' er mwyn gwella parhad busnes a sefydlogrwydd y gwasanaeth.

Rhannu'r hyn yr ydym wedi'i ddysgu â Chymru a thu hwnt

- Hyrwyddo ein henw da fel deddfwrfa ar wahân a blaengar y gall eraill ddysgu ohoni.
- Dysgu gan eraill, o fewn y DU, Ewrop a thu hwnt.

Defnyddio adnoddau'n ddoeth

Cynyddu effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn barhaus a mesur y gwelliant ac adrodd amdano

- Buddsoddi'n strategol i helpu i wella gwasanaethau, gan gynnwys cyfleoedd technoleg newydd ar gyfer gwell effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.
- Gwella'r wybodaeth reoli sydd ar gael i ddangos yn glir lle rydym yn gwneud gwelliannau.
- Adnewyddu'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn sgil blaenoriaethau'r Comisiwn.

Bod yn gwbl dryloyw ac yn atebol o ran rheoli'n cyllideb

- Dangos gwerth am arian.
- Buddsoddi i sicrhau ein bod yn barod ar gyfer newid cyfansoddiadol.
- Ystyried y manteision o brynu Tŷ Hywel.

Lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd

- Datblygu'r Trywydd Lleihau Ynni.

Meithrin ein gallu o ran pobl

- Adeiladu gallu ein pobl i fod yn hyblyg i gwrdd â heriau presennol ac yn y dyfodol.
- Gwella'r gwaith o gynllunio capasiti ymhellach.
- Rhoi cefnogaeth effeithiol ar gyfer newid.
- Cefnogi o ran lles.
- Cymryd camau pellach i fod yn gyflogwr cynhwysol o ddewis, gan gynnwys cryfhau'r rhwydweithiau cydraddoldeb yn y gweithle ac uwch hyrwyddwyr.

Integreiddio amrywiaeth a chynhwysiant yn y broses benderfynu, a'r broses o lunio a chyflenwi gwasanaethau

- Datblygu Strategaeth Cynhwysiant Amrywiaeth y Pumed Cynulliad a Chynllun Gweithredu.
- Integreiddio ymhellach ystyriaethau amrywiaeth a chynhwysiant i gynllunio meysydd gwasanaeth.
- Cynnwys asesiadau effaith o gydraddoldeb yn y sefydliad, yn enwedig mewn mentrau gwella a thrawsnewid gan ganolbwyntio ar anghenion y defnyddwyr.